John Penri, 1563–93
Merthyr ac awdur Piwritanaidd

Ganwyd John Penri ar fferm Cefn-brith, ym mhlwyf Llangamarch, Brycheiniog. Ffermwr oedd ei dad, Meredydd Penri, a gadwai ddefaid ar lethrau Mynydd Epynt. Ym 1580 aeth i Goleg Peterhouse, Caergrawnt, lle yr enillodd radd BA ym 1584. Yna fe aeth i Neuadd Sant Alban, Rhydychen, lle yr enillodd radd MA. Yno dechreuodd bregethu, ac fe sylweddolodd mai dyma'r ffordd orau i gynnig goleuni i bobl Cymru. Meddyliodd mor dda fyddai cael pregethwyr yn cyhoeddi'r Efengyl i'r Cymry yn eu hiaith eu hunain.

Ym 1587 cyhoeddodd Penri ei lyfr cyntaf, sef *A Treatise containing the Aequity of an Humble Supplication*, a argraffwyd yn Rhydychen gan Joseph Barnes. Apêl i'r Senedd ar ran ei gyd-Gymry ydoedd. Gwaredai oherwydd cyflwr ysbrydol isel ei bobl a oedd yn ganlyniad i'w gwrthryfel yn erbyn Jehofa. Yr oedd y gweinidogion yn aneffeithiol, a golygai hynny fod miloedd o drigolion Cymru'n byw bywydau llawn ofergoeliaeth ac yn gwybod dim am Iesu Grist. Yr oedd y wlad yn frith o ddynion hysbys a dewiniaid a honnai eu bod yn cymdeithasu â'r Tylwyth Teg. Nid oedd dim ond barn Duw, colledigaeth ac uffern yn wynebu pobl y wlad.

Dadleuai Penri mai unig obaith y genedl oedd cael Jehofa yn Dduw iddi. Ymbiliodd ar y Frenhines a'r Senedd i ystyried cyflwr truenus Cymru a thrugarhau wrthi, ac apeliodd am gyflenwad o bregethwyr i ddysgu'r bobl am yr Efengyl yn eu hiaith eu hunain. Pan gyflwynodd yr *Aequity* i'r Senedd, cythruddwyd yr Archesgob John Whitgift gan ei gynnwys. Gorchmynnodd atafaelu pob copi ohono a gwysiodd Penri i ymddangos o flaen Llys yr Uchel Gomisiwn gan fod awgrym wedi ei wneud ei fod yn euog o deyrnfradwriaeth yn ei lyfr. Cadwyd ef yn y carchar am fis ac yna fe'i rhyddhawyd.

Symudodd i fyw i Northampton a oedd ar y pryd yn ferw gwyllt o weithgarwch Piwritanaidd. Ni chafodd ymateb i'w apêl,

ond parhaodd i ymbil ac i ysgrifennu pamffledi fel *Exhortation unto the Governours and People of Hir Maiesties Countrie of Wales* a gyhoeddwyd ym 1588, gan ddangos angen pobl Cymru am yr Efengyl Gristnogol.

Oherwydd iddo ysgrifennu'r pamffledi hyn fe'i rhoddwyd yn y carchar, ac wedi treulio mis yno daethpwyd ag ef o flaen yr Archesgob a gofynnwyd iddo dynnu ei eiriau'n ôl. Wedi ychydig amser ychwanegol yn y carchar fe'i rhyddhawyd gan ei rybuddio pe byddai'n argraffu rhagor y byddai'n derbyn cosb drymach. Ond dechreuodd bregethu ac ysgrifennu eto ac fe ffodd i'r Alban lle y treuliodd dair blynedd. Cysylltwyd ef â chyhoeddiadau Martin Marprelate a ymosodai'n llym ar lygredd esgobion Eglwys Loegr, ond er i lawer gredu mai Penri oedd yr awdur hwnnw, ni phrofwyd hynny erioed.

Dychwelodd i Loegr ym Medi 1592 ac ymunodd ag eglwys Annibynnol Henry Barrow yn Llundain. Ar ddydd Iau, 22 Mawrth 1593, aethpwyd ag ef ac aelodau eraill o'r eglwys i'r carchar yn y Poultry Comper. Fe'i rhoddwyd ar brawf a'i ddyfarnu'n euog, ac ar 29 Mai cafodd ei grogi yn St Thomas a Watering, heb fod ymhell o'r man lle y codwyd capel Cymraeg y Boro' yn ddiweddarach. Heddiw nodir y man lle y'i dienyddiwyd gan yr enw 'Penry Street'. Gadawodd weddw a phedair merch ieuanc.